

Glasbrint Casgliadau: gwastraff masnachol



Gwasanaeth ailgylchu masnachol Conwy

Erbyn hyn, mae cartrefi ar draws y wlad yn disgwyl cael gwasanaethau gwastraff ac ailgylchu cynhwysfawr ac yn sir Conwy mae hynny hefyd yn wir am fusnesau, gyda'r cyngor lleol yn falch o ddarparu gwasanaeth gwastraff masnachol cynhwysfawr.

Cyflwynodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy system ailgylchu ar gyfer busnesau yn 2008, gan gynnig casgliadau gwastraff gweddilliol, papur, cardbord, caniau, gwydr & plastig mewn modd sy'n golygu bod y rhai sy'n byw a gweithio yn y sir yn gallu 'nodi'r cysylltiad clir' rhwng y gwasanaethau cartrefi a busnesau. Ychwanegwyd casgliad gwastraff bwyd at wasanaeth masnachol y Cyngor yn 2013.

Ar hyn o bryd, mae 1,300 cwsmer masnachol gan y Cyngor, yn bennaf ar yr arfordir mewn llefydd poblogaidd gydag ymwelwyr fel Llandudno a'r Rhos. Mae'r gwasanaeth yn trin 4,500 tonnell o wastraff masnachol, yn cynnwys 759 tonnell o ddeunydd ailgylchu sych a 617 tonnell o

wastraff bwyd, o amrediad eang o fusnesau yn y sir.

Hwyluso ailgylchu

Ers 2013, mae'r Cyngor ond wedi derbyn cwsmeriaid gwastraff masnachol os byddant yn cytuno i arwyddo ar gyfer y gwasanaeth ailgylchu. Mae'r Cyngor yn trin deunydd ailgylchu mewn biniau gwastraff fel ei fod wedi'i halogi ac os bydd cwsmer busnes yn rhoi deunydd ailgylchu yn y gwastraff cyffredinol, bydd swyddog ailgylchu'r Cyngor yn ymweld â'r busnes er mwyn dangos y ffordd iawn o drin y deunydd. Fel y cam olaf un, gall y Cyngor ddileu cwsmeriaid sy'n parhau i wneud hynny oddi ar ei restr cwsmeriaid.

Ond bydd yn gwneud ailgylchu'n ddeniadol i bob cwsmer wrth bennu prisiau sy'n ei gwneud yn rhatach i ailgylchu deunyddiau na'u hanfon i safleoedd tirlenwi, yn rhannol oherwydd y costau bydd y Cyngor yn wynebu ar ffurf ffioedd gwaredu.

Er bod prisiau gwahanol ar gyfer y gwahanol flychau casglu, y pris safonol am gasglu bin olwyn gwastraff 240 litr bob wythnos yw £5.50, a'r pris am gasglu bin cyfatebol o ddeunydd ailgylchu yw £1.90.

Didoli deunyddiau

Gyda Rheoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr) 2011 yn galw am gasglu deunyddiau ailgylchu ar wahân, a glasbrint casgliadau Llywodraeth Cymru yn dilyn yr un drefn, mae'r Cyngor yn darparu casgliadau ar wahân (poteli, potiau, tybiau ac ati), gwydr, caniau, papur, cardbord a gwastraff bwyd.

Mae didoli deunyddiau yn helpu'r Cyngor i gynnal cysylltiadau da gydag ailbroseswyr sydd, yn achos dur, alwminiwm, papur, cardiau, plastig a gwydr o fewn 100 milltir yn y gogledd a gogledd orllewin Lloegr, yn cynnwys contract hir dymor gyda melin bapur Shotton.

Mae gwasanaeth hyblyg y Cyngor yn cynnig amrywiaeth yn nhermau math a maint y blychau, fel Trolibocs y gwasanaeth preswyl, sticeri ar gyfer pecynnau cardbord a biniau 240 neu 660 litr. A'r casgliadau eu hunain yn hyblyg, sef bob wythnos, pythefnos neu fis ar gyfer y rhan helaeth o'r blychau, gyda gwastraff bwyd a'r Trolibocs yn unig yn destun casgliadau wythnosol.

Gwastraff bwyd

Yn ogystal â'r bwytai, tai gwely a brecwast a gwestai sy'n gwasanaethu ymwelwyr ar hyd yr arfordir, mae nifer o fusnesau amaethyddol ar draws y sir, sy'n golygu ei bod yn cynnwys un o'r crynodiadau uchaf o fusnesau cysylltiedig â bwyd yng Nghymru. O ganlyniad ac wrth ragweld deddfwriaeth yn mynnu casglu gwastraff bwyd ar wahân, mae'r Cyngor yn cymhell ei gwsmeriaid masnachol i ailgylchu bwyd ynghyd â deunyddiau eraill.

Mae'r Cyngor yn darparu bagiau biodiraddadwy am ddim ar gyfer cwsmeriaid masnachol er mwyn hwyluso ailgylchu bwyd. Mae casgliadau wythnosol y Cyngor yn derbyn bwyd wedi a heb ei goginio, yn

cynnwys gweddillion, cig, pysgod, esgyrn, caws, ffrwythau, llysiau, plisg wyau, bara, cacenni, bagiau te, olion coffi a phapur cegin.

Prosesir gwastraff bwyd a ailgylchir gan fusnesau Conwy un ai yn uned y Cyngor er creu compost safon uchel, neu mewn uned treulio anaerobig i gynhyrchu ynni a gwrtaith.

Gwasanaeth gwastraff masnachol cystadleuol

Derbynnir bod gwasanaeth gwastraff masnachol y Cyngor yn cynnig gwerth da am yr arian o gymharu â nifer o gystadleuwyr preifat, yn arbennig wrth wneud y costau'n glir, gyda dim ffioedd ychwanegol am rentu biniau neu ddogfennau dyletswydd gofal. Mae cwsmeriaid hefyd yn gwerthfawrogi gwaith y tîm gwastraff masnachol, sy'n cynnwys swyddog ac arolygwr gwastraff masnachol, ac aelodau o'r tîm cyngor amgylcheddol sy'n cynnal y system ffôn ac yn ateb cwestiynau.

Ar ben hynny, mae'r tîm wedi ymrwymo i ddarparu nid yn unig y pecyn mwyaf economaidd ond yr un gorau i'r amgylchedd, wrth gynnal archwiliadau ar safleoedd a dosbarthu pecynnau gwybodaeth er mwyn hysbysu busnesau o'u cyfrifoldebau. Wrth ddefnyddio fflyd o gerbydau, mae gwasanaeth masnachol y Cyngor (gan ddefnyddio cerbydau gwahanol ar gyfer deunyddiau gwahanol) yn gweithio ar draws y sir - yn cynnwys ardaloedd gwledig nad yw pob contractwr preifat yn gwasanaethu er sicrhau gwasanaeth dibynadwy ar draws y sir.

